


Helpu tenantiaid gyda Chredyd Cynhwysol

Canllaw darluniadol byr



Tenant



Landlord

Mae fy sefyllfa wedi newid

Mae fy sefyllfa bellach wedi newid. Nid oes gennfy incwm mwyach, sut y byddaf yn talu am fy mwyd a'm rhent?

“Dw i ddim yn ddigon da i weithio mwyach.”

“Gallwch wneud cais am Gredyd Cynhwysol ar-lein, gallant helpu gyda'ch rhent.”

Rwyf wedi datblygu perthynas dda gyda'm tenant. Mae hyn yn caniatáu i mi nodi materion a allai effeithio ar daliadau rhent ac annog fy nhenant i wneud cais am Gredyd Cynhwysol cyn gynted â phosibl.

Mae Help i Hawlio ar gael gan Cyngor Ar Bopeth, os ydych chi'n byw yng [Nghymru neu Loegr](#) neu os ydych chi'n byw yn yr [Alban](#).

Darganfyddwch fwy am [helpu tenantiaid i baratoi ar gyfer Credyd Cynhwysol](#).

Cais Credyd Cynhwysol

Rydw i wedi gwneud fy nghais Credyd Cynhwysol ar-lein. Mae angen i mi gwblhau'r holl gamau hanfodol sy'n cynnwys rhannu manylion fy landlord a'm costau tai yn fy apwyntiad canolfan gwaith gyntaf.

“Mae angen i mi gadarnhau faint o rent rwy'n ei dalu i'm landlord.”

“Mae angen i chi ddangos mai chi sy'n gyfrifol am dalu'r rhent a'ch bod chi'n byw yno Gallaf helpu.”

Gallaf helpu fy nhenant os nad oes ganddynt y dogfennau cywir i gefnogi eu cais am gostau tai:

- cytundeb tenantiaeth
- prawf cyfeiriad
- prawf o atebolrwydd cyfredol

Darganfyddwch fwy am [ofynion tystiolaeth](#).

Taliad Ymlaen Llaw Credyd Cynhwysol

Derbyniwyd fy nghais Credyd Cynhwysol - byddaf yn derbyn fy nhaliad cyntaf 5 wythnos o ddyddiad fy hawliad.

“Sut y byddaf yn ymdopi tan fy nhaliad cyntaf?”

“Gallwch gael taliad ymlaen llaw Credyd Cynhwysol.”

Rwy'n cynghori fy nhenant y gallant gael taliad ymlaen llaw os ydynt yn cael trafferthion, ac y gall hyn gynnwys arian am eu rhent. Rwy'n sicrhau eu bod yn gwybod bod yn rhaid talu'r taliad ymlaen llaw yn ôl o daliadau Credyd Cynhwysol dilynol. Rwyf hefyd yn cynghori fy nhenant i siarad â'u hannogwr gwaith am hyn.

Darganfyddwch fwy am [daliadau ymlaen llaw](#).

Symud o Fudd-dal Tai

Rwy'n cael Budd-dal Tai - beth fydd yn digwydd i'm taliadau?

“A fydd fy Mudd-dal Tai yn dod i ben?”

“Bydd, ond nid ar unwaith. Byddwch yn parhau i gael Budd-dal Tai am bythefnos ar ôl i chi hawlio Credyd Cynhwysol”

Rwy'n egluro y byddant yn parhau i gael Budd-dal Tai am bythefnos pan fyddant yn symud ymlaen i Gredyd Cynhwysol. Telir [y pythefnos ychwanegol o Fudd-dal Tai](#) yn awtomatig, ni fydd yn effeithio ar eu taliad Credyd Cynhwysol ac nid oes angen ei dalu'n ôl. Rwy'n eu cynghori i wirio gyda'r cyngor a oes ganddynt unrhyw gwestiynau am y taliad ychwanegol hwn.

Talu rhent trwy archeb sefydlog neu Ddebyd Uniongyrchol

Rwyf nawr yn cael fy Nghredyd Cynhwysol wedi'i dalu'n fisol. Nid wyf yn siŵr sut y byddaf yn cyllidebu nawr gan fy mod wedi arfer cael fy nhalu bob pythefnos.



"Beth yw'r ffordd orau i dalu fy landlord?"
"Gallwch sefydlu archeb sefydlog i dalu'ch rhent yn uniongyrchol i mi."

Esboniaf i'm tenant y bydd Credyd Cynhwysol yn cael ei dalu bob mis ac yn awgrymu eu bod yn sefydlu archeb sefydlog gyda'u banc, neu fy mod yn sefydlu Debyd Uniongyrchol i'r rhent gael ei dalu'n uniongyrchol i mi.
Rwyf hefyd yn rhoi gwybod iddynt am **Daliadau Tai Dewisol** rhag ofn nad yw eu costau tai Credyd Cynhwysol yn talu am eu holl rent.

Trefniadau Taliad Amgen

Rwyf wedi cael trafferth cyllidebu fy nhaliadau Credyd Cynhwysol felly rwyf bellach ar ei hôl hi gyda fy rhent.



"Rwy'n poeni oherwydd fy mod ar ei hôl hi gyda fy rhent"


"Gallaf ofyn bod eich costau tai yn cael eu talu'n uniongyrchol i mi."

Gan fod fy nhenant yn agored i niwed a/neu mewn ôl-ddyledion rhent, gallaf **wneud** cais i'w costau tai gael eu talu'n uniongyrchol i mi.

Darganfyddwch fwy am **Drefniadau Taliadau Amgen**.

Ôl-ddyledion rhent

Mae arnaf rent o hyd i'm landlord, sut allai dalu hwn yn ôl?



"Mae arnaf 2 fis o rent, ni allaf dalu hwn yn ôl i gyd ar yr un pryd."

"Gallaf ofyn i DWP wneud didyniadau o'ch taliadau Credyd Cynhwysol i adennill yr ôl-ddyledion rhent sy'n ddyledus i mi."

Gallaf ofyn i DWP wneud **didyniadau o Gredyd Cynhwysol**, os yw fy nhenant o leiaf 2 fis mewn ôl-ddyledion.

Mae'r ôl-ddyledion rhent a adenillwyd gan y tenant yn cael eu talu i'm cyfrif banc ar gylch 28 diwrnod mewn ôl-ddyledion.

Taliadau uniongyrchol

Bydd fy rhent nawr yn cael ei dalu'n uniongyrchol i'm landlord, mae hyn yn sicrhau eu bod yn cael yr arian mewn pryd.



"Pryd fyddwch yn gofyn am fy rhent?"

"Byddaf yn derbyn eich rhent yn uniongyrchol ar yr un diwrnod ag y cewch eich Credyd Cynhwysol."

Mae'r taliad uniongyrchol o'r rhent y gwnes gais amdano yn cael ei dalu i'm cyfrif banc ar yr un diwrnod ag y mae'r tenant yn cael ei Gredyd Cynhwysol; Rwy'n cael hysbysiad o i bwy y mae'r arian ar ei gyfer.

Darganfyddwch fwy am **Drefniadau Taliadau Amgen**.

Gwirio cynnydd

Rwy'n defnyddio fy nghyfrif ar-lein i gael y wybodaeth ddiweddaraf am fy nghais Credyd Cynhwysol a rhoi gwybod am unrhyw newid yn fy amgylchiadau.



"Mae fy rhent wedi cy-nyddu, beth sydd angen i mi ei wneud?"


"Gallwch chi roi nodyn yn eich dyddlyfr ond gallaf siarad â'ch rheolwr achos pe bai hynny'n helpu."

Gallaf siarad â'r rheolwr achosion am daliad uniongyrchol o rent trwy ffonio'r llinell gymorth Credyd Cynhwysol ar 0800 328 1744.

Os wyf am siarad â'r rheolwr achosion am agweddau eraill ar yr hawliad, gofynnaf i'm tenant roi caniatâd trwy eu dyddlyfr. Efallai yr hoffwn wneud hyn i helpu tenant agored i niwed i wirio ei rent.

Scottish choices

Rwyf wedi derbyn fy nhaliad Credyd Cynhwysol cyntaf ac mae'n cynnwys fy rhent.



"Mae nodyn yn fy nyddlyfr yn dweud y gall Credyd Cynhwysol eich talu'n uniongyrchol os mai dyna ydw i eisiau?"

"Ie, mae hynny oherwydd bod gennych ddewis yn yr Alban."

Gall pobl ar Gredyd Cynhwysol yn yr Alban ddewis cael eu rhent wedi'i dalu'n uniongyrchol i'w landlord.

Darganfyddwch fwy am **ddewisadau Credyd Cynhwysol yr Alban**.